# Cynnal gwasanaeth ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth hybu’r gwaith o gynnal gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a theuluoedd. Mae’n rhaid i chi allu negodi a phennu gofynion y gwasanaeth gyda phlant a phobl ifanc a theuluoedd, sefydlu systemau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn gywir a gwerthuso gwasanaethau i sicrhau y llwyddir i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc a theuluoedd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill o ran y gofal i'w roi i blant neu bobl ifanc
2. sicrhau bod gwybodaeth ar gael am wasanaethau
3. cefnogi teuluoedd i fynegi'r hyn maent ei angen o wasanaethau i blant neu bobl ifanc
4. cyfathrebu â theuluoedd mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth a gwahaniaethau diwylliannol
5. trafod y dewisiadau a'r opsiynau gwasanaeth sydd ar gael gyda theuluoedd, a'u hannog i ofyn cwestiynau ac egluro unrhyw fanylion
6. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i gytuno ar yr wybodaeth a fydd yn cael ei chofnodi am wasanaethau
7. cefnogi teuluoedd i rannu gwybodaeth berthnasol am ddewisiadau, anghenion ac arferion plant neu bobl ifanc
8. cefnogi teuluoedd i rannu unrhyw bryderon am blant neu bobl ifanc ac unrhyw ystyriaethau arbennig sy'n berthnasol i'w gofal
9. sicrhau bod eraill yn cael gwybod am y gofal i'w roi i blant neu bobl ifanc
10. sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth, y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol
11. sicrhau bod manylion cyswllt yn gywir a bod prosesau cyswllt mewn argyfwng ar waith
12. trefnu bod cytundebau â theuluoedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
13. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i gytuno ar amseriad ac amlder y gwaith adolygu contractau
14. cefnogi teuluoedd i nodi manteision rhannu a chyfnewid gwybodaeth
15. sicrhau y cytunir ar fformatau ac amlder cyfnewid gwybodaeth gyda theuluoedd, yn unol â'u dewisiadau
16. hwyluso'r gwaith o gyfnewid gwybodaeth â theuluoedd
17. adolygu gofal plant neu bobl ifanc i sicrhau y llwyddir i gwrdd â'u hanghenion
18. gofyn am adborth gan deuluoedd am y gwasanaethau a ddarperir, a thrafod unrhyw newidiadau sy'n ofynnol
19. ymgynghori ag eraill i gasglu adborth ynghylch y gwasanaethau a ddarperir, a nodi cyfleoedd i ddatblygu
20. rhoi newidiadau ar waith ar sail adborth

21. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cynnal gwasanaeth ar gyfer plant neu bobl ifanc a theuluoedd
22. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth gynnal gwasanaeth ar gyfer plant neu bobl ifanc a theuluoedd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gwasanaethau'r gweithle
2. sut mae darparu gwybodaeth glir a hygyrch am wasanaethau i blant a phobl ifanc a theuluoedd
3. sut mae sicrhau bod eraill yn cael gwybod ac y cytunir ar rolau'n glir â theuluoedd
4. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma mewn gwasanaethau i blant a phobl ifanc a theuluoedd
5. sut mae cadw manylion cyswllt yn gyfredol a sicrhau bod prosesau cyswllt mewn argyfwng ar waith
6. pwysigrwydd trefnu cyfarfodydd adolygu rheolaidd gyda theuluoedd i asesu gwasanaethau
7. manteision rhannu gwybodaeth â theuluoedd i gefnogi â'r gwaith o ofalu am blant a phobl ifanc
8. sut mae hwyluso'r gwaith o gyfnewid gwybodaeth â theuluoedd
9. egwyddorion cyfrinachedd a sut mae esbonio ffiniau cyfrinachedd i deuluoedd
10. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar ddarparu gwasanaethau
11. sut mae cyfathrebu'n effeithiol â theuluoedd mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth a gwahaniaethau diwylliannol
12. pwysigrwydd annog teuluoedd i rannu pryderon ac ystyriaethau arbennig
13. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a theuluoedd
14. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gynnal gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a theuluoedd
15. sut mae cynnal gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a theuluoedd mewn ffordd sy'n cefnogi rheoleiddio emosiynol
16. pwysigrwydd gofyn am adborth gan deuluoedd ac eraill, a sut i'w ddefnyddio i wella gwasanaethau
17. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i gynnal gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a theuluoedd
18. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cynnal gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a theuluoedd
19. theorïau sy'n berthnasol i gynnal gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a theuluoedd

20. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cynnal gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a theuluoedd
21. sut y gall eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth gynnal gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a theuluoedd, a sut i fynd i'r afael â hyn
22. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gynnal gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a theuluoedd

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD374

Cynnal gwasanaeth ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD374 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cynnal gwasanaethau, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |